# Prawf budd y cyhoedd ar yr sefyllfa bosibl o uno mewn cysylltiad â'r Telegraph Media Group

Gwahoddiad i gyflwyno sylwadau

**Gwahoddiad i gyflwyno sylwadau**

Cyhoeddwyd 1 Rhagfyr 2023

Dyddiad cau derbyn ceisiadau: 13 Rhagfyr 2023

# 1. Gwahoddiad i gyflwyno sylwadau

1.1 Ar 30 Tachwedd 2023, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol Hysbysiad Ymyriad er Budd y Cyhoedd ("PIIN")[1] o dan adran 42(2) o Ddeddf Menter 2002 (y "Ddeddf") ynghylch y sefyllfa berthnasol am yr uno posibl sy'n deillio o'r trefniadau gyda Redbird IMI Media Joint Venture, LCC o'r Telegraph Media Group Cyf. Telegraph Media Group yw perchennog papurau newydd y Telegraph a'r Sunday Telegraph.

1.2 Mae'r "PIIN" yn nodi'r ystyriaethau canlynol o ran budd y cyhoedd a allai fod yn berthnasol i'r sefyllfa berthnasol am yr uno posibl a adnabyddir:

a) yr angen i gyflwyno newyddion yn gywir (ar sail "cyflwyno newyddion yn gywir");[2]
b) yr angen i fynegi barn yn rhydd mewn papurau newydd (ar sail "mynegi barn yn rhydd");[3]

1.3 Mae'n rhaid i Ofcom nawr adrodd i'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 44A o'r Ddeddf. Mae'r PIIN yn datgan bod yn rhaid i ymchwiliad ac adroddiad Ofcom gael eu cwblhau erbyn hanner nos ar ddiwedd 26 Ionawr 2024.

1.4 Heddiw, mae Ofcom wedi cyhoeddi nodyn canllaw ar ein gwefan sy'n nodi'r broses a'r amserlen ar gyfer paratoi ein hadroddiad ar yr ystyriaethau budd y cyhoedd a bennwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

1.5 Rydym yn ceisio ymatebion sy'n darparu tystiolaeth ar y cwestiynau penodol a nodir isod.

## Cyflwyno newyddion yn gywir

1.6 Mae'r canllawiau statudol sy'n ymwneud â'r sail hon yn nodi bod effaith y sefyllfa berthnasol o uno ar gyflwyno'r newyddion yn gywir yn debygol o gael ei hasesu drwy gyfeirio at dystiolaeth o ymddygiad blaenorol y mentrau dan sylw, neu ymddygiad blaenorol y personau sydd â rheolaeth dros fentrau o'r fath, mewn perthynas â hynny neu fentrau eraill, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i bapurau newydd.[4] Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn disgwyl y byddai ymddygiad mewn sectorau tebyg i bapur newydd, er enghraifft cylchgronau, yn debygol o fod yn fwy perthnasol nag ymddygiad mewn sectorau gyda chysylltiad llai uniongyrchol.

1.7 Byddwn yn ystyried cyflwyno newyddion yn gywir yng ngoleuni graddfa a natur y rheolaeth a'r bobl sydd y tu cefn i hynny, os yw'r trafodiadau'n mynd rhagddynt. Byddwn hefyd yn ystyried unrhyw fesurau y mae'r partïon yn bwriadu eu rhoi ar waith i gynnal cywirdeb ac i ba raddau y mae'r mesurau hynny'n ddigonol i fynd i'r afael â'r pryderon (os o gwbl) a allai

[1] Daw'r PIIN yn dilyn cyhoeddi 'llythyrau o fwriad' ar 22 Tachwedd 2023: https://www.gov.uk/government/collections/proposed-loan-repayment-agreement-for-telegraph-media-group
[2] Adran 58 (2A)(a) y Ddeddf.
[3] Adran 58 (2A)(b) y Ddeddf.
[4] Yr Adran Masnach a Diwydiant, Deddf Menter 2002: Canllawiau ar weithredu darpariaethau uno er budd y cyhoedd sy'n ymwneud â phapurau newydd ac uno mentrau cyfryngau eraill, Mai 2004, paragraff 5.5. Ar gael yng Nghanllawiau'r Adran Masnach a Diwydiant.

godi o’r trafodiadau. Byddwn hefyd yn ystyried a oes gan y prynwyr gyfranddaliadau mewn unrhyw fusnesau eraill yn y cyfryngau, oherwydd gallai hynny ddarparu tystiolaeth o’u hymddygiad tebygol.

1.8 Rydym yn ceisio barn ar yr holl faterion a nodir uchod ac unrhyw faterion eraill y mae ymatebwyr yn credu y dylem eu hystyried mewn perthynas â chyflwyno newyddion yn gywir.

## Mynegi barn yn rhydd

1.9 Mae’r canllawiau statudol sy’n ymwneud â’r sail hon yn disgrifio mynegi barn yn rhydd o safbwynt y graddau y byddai’r trafodiad yn effeithio ar ryddid golygyddion i weithredu heb ymyrraeth gan y perchennog.[5]

1.10 Byddwn yn ystyried mynegi barn yn rhydd yng ngoleuni cyd-destun y farchnad ac unrhyw fesurau y gallai’r partïon fod wedi’u rhoi ar waith i gynnal a chadw rhyddid golygyddol. Byddwn hefyd yn ystyried i ba raddau y mae’r mesurau hynny’n ddigonol i fynd i’r afael â’r pryderon (os o gwbl) a allai godi o’r trafodiadau.

1.11 Rydym yn ceisio barn ar yr holl faterion a nodir uchod ac unrhyw faterion eraill y mae ymatebwyr yn credu y dylem eu hystyried mewn perthynas ag effaith y trafodiadau hyn ar y sail i fynegi barn yn rhydd.

### Cyngor ac argymhelliad i’r Ysgrifennydd Gwladol

1.12 Yn gyffredinol, bydd Ofcom yn ystyried sut gallai’r trafodiadau effeithio ar ystyriaethau budd y cyhoedd, gan ystyried sylwadau a dadansoddiadau o wybodaeth berthnasol.

## Sut mae cyflwyno sylwadau

1.13 Mae Ofcom yn gwahodd sylwadau ysgrifenedig erbyn **13 Rhagfyr 2023**. Rydym yn gofyn am ymatebion sy’n cynnig barn, wedi’u hategu gan dystiolaeth, ar y cwestiynau penodol a nodir uchod, neu ar ystyriaethau eraill y mae rhanddeiliaid yn credu sy’n berthnasol, unwaith eto wedi’u hategu gan dystiolaeth. Oherwydd yr amserlenni a bennwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol, efallai na fyddwn yn gallu ystyried yn llawn ymatebion a gyflwynir ar ôl y dyddiad hwn.

1.14 A fyddech cystal â chyflwyno sylwadau drwy e-bost at PublicInterestTest2023@ofcom.org.uk gan atodi eich ymateb mewn fformat Microsoft Word, ynghyd â’r ddalen cyflwyno ymateb i’r ymgynghoriad (Atodiad 1). Rydym yn croesawu ymatebion yn Gymraeg.

1.15 Fel arall, gellir postio ymatebion i’r cyfeiriad isod, wedi’i farcio’n glir ‘Public Interest Test / Prawf Budd y Cyhoedd 2023:

Public Interest Test Team 2023 Ofcom
Riverside House
2A Southwark Bridge Road
London SE1 9HA

[5] DTI Guidance, paragraph 5.7.

1.16 Nid oes rhaid i chi gyflwyno copi papur a fersiwn electronig. Ni fydd Ofcom yn cydnabod ein bod wedi derbyn ymatebion.

1.17 Mae Ofcom yn glynu'n gaeth wrth gyfrinachedd ym mhob agwedd ar ei weithrediadau. Mae hyn yn berthnasol i ddeunydd a gyflwynir mewn ymateb i'r gwahoddiad hwn am sylwadau. Byddwn yn rhoi i'r Ysgrifennydd Gwladol (ac i'r CMA os bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn atgyfeirio) yr holl sylwadau perthnasol (gan gynnwys y rhai cyfrinachol) i'w galluogi i wneud ei phenderfyniad. Os yw eich cyflwyniad yn cynnwys deunydd cyfrinachol, byddwn yn gofyn am fersiwn lawn gyda gwybodaeth gyfrinachol wedi'i hepgor, ynghyd â rhesymau pam y dylid trin y cyflwyniad yn gyfrinachol, er mwyn helpu i sefydlu beth allai fod yn briodol i gyfeirio ato'n gyhoeddus yn ystod y gwaith hwn.

1.18 Sylwch, os bydd unrhyw un yn rhoi gwybodaeth i ni yn y cyd-destun hwn sy'n ffug neu'n gamarweiniol iawn, mae hynny'n drosedd, ac o'i gael yn euog, gallai gael ei gosbi drwy ddirwy a/neu ddwy flynedd o garchar.[6]

---

[6] Adran 117 y Ddeddf

# A1. Dalen cyflwyno ymateb

## Manylion sylfaenol

Teitl y gwahoddiad i gyflwyno sylwadau:

At (swyddog cyswllt yn Ofcom):

Enw'r ymatebydd:

Yn cynrychioli (eich hun neu sefydliad(au)):

Cyfeiriad (os na ddaeth i law drwy e-bost):

## Cyfrinachedd

Ticiwch isod i ddangos pa ran o'ch ymateb sydd yn eich barn chi yn gyfrinachol, gan roi'ch rhesymau am hynny

- Dim ☐
- Enw/manylion cyswllt/teitl swydd ☐
- Ymateb cyfan ☐
- Sefydliad ☐
- Rhan o'r ymateb ☐

Os ydych chi wedi dewis 'Rhan o'r ymateb', nodwch pa rannau:

------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

---------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Os ydych am i ran o'ch ymateb, eich enw neu eich sefydliad beidio â chael eu cyhoeddi, ydych chi'n fodlon i Ofcom gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, yn achos unrhyw rannau cyfrinachol, grynodeb cyffredinol na fydd yn datgelu'r wybodaeth benodol nac y gellir eich adnabod ohono)?

Ydw ☐ Nac ydw ☐

## Datganiad

Rwyf yn cadarnhau bod yr ohebiaeth sydd wedi'i rhoi gyda'r ddalen gyflwyno hon yn ymateb ffurfiol y gall Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth ddarparu'r ymateb hwn, rwyf yn deall ei bod yn bosibl y bydd angen i Ofcom gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u marcio'n gyfrinachol, er mwyn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol. Os wyf wedi anfon fy ymateb drwy neges e-bost, gall Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynghylch peidio â datgelu cynnwys ac atodiadau'r neges e-bost.

Mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi ymatebion yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben. Os yw'ch ymateb yn un nad yw'n gyfrinachol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), ac y byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi'ch ymateb nes bydd yr ymgynghoriad wedi dod i ben, ticiwch yma.

Enw Llofnod (os darperir copi caled)